

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o rhithwir gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 7 Ionawr
2021 am 3.00 pm.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn
bresennol:-:-**

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd P Jarman
Y Cyngorydd D Grehan Y Cyngorydd G Hughes
Y Cyngorydd J Williams Y Cyngorydd W Owen
Y Cyngorydd R Yeo Y Cyngorydd D Williams
Y Cyngorydd S Powderhill

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

65 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.
Bonetto.

66 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn
â'r agenda.

**67 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI
DATBLYGU**

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion
rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo
hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau,
wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd
sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i
hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

68 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy
yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n
anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu
cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

69 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020 yn rhai cywir.

70 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

71 CAIS RHIF: 20/0959

6 o fflatiau 1 ystafell wely (newidiwyd y disgrifiad a derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 4 Tachwedd 2020)

Hen Glwb y Lleng Brydeinig, Stryd Howell, Cilfynydd, Pontypridd

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr R Frost (Asiant)
- Mr M Jones (Gwrthwynebydd)
-

Arferodd yr Asiant, Mr Richard Frost, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Amlinellodd y Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan Mr Skinner , a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

(Nodwch: Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Hughes a R Yeo wedi ymatal rhag pleidleisio gan nad oeddent yn bresennol ar gyfer y drafodaeth gyfan mewn perthynas â'r eitem.)

72 CAIS RHIF: 20/0646

Dwy annedd 4 ystafell wely rhanedig gyda garejys a manau parcio a rennir. Darparu llwybr troed. (Amlinelliad) (Effeithio ar Hawl Tramwy Cyhoeddus ANT/340/1) (Diwygiwyd y disgrifiad. Derbyniwyd cynlluniau a gwybodaeth ddiwygiedig ar 5 Hydref, 6 Tachwedd a 9 Tachwedd 2020)
Tir yn Otters Brook, Parc Ivor, Brynsadler, Pont-y-clun

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr S Lewis (Gwrthwynebydd). Cafodd e bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor gan gadarnhau bod y cais yma'n wahanol i'r cais blaenorol (20/0248) a gafodd ei wrthod. Mae'r cais yn wahanol gan na fydd y 'dull mynediad' yn cael ei ystyried fel mater wedi'i gadw'n ôl ond yn rhan o'r cais yma. O ganlyniad i hynny, roedd angen cywiro amod 1 i ddileu'r "dull mynediad" fel mater sydd wedi'i gadw'n ôl a bydd y cynllun

(1105 Cyf B - Gwelliannau Arfaethedig mewn perthynas â'r Briffordd (derbyniwyd 14/12/20 ac adeiladu Ffordd Gerbydau a Llwybr Troed 110 - Strydoedd Preswyl (derbyniwyd 14/12/20)) yn cael eu cynnwys yn rhan o amod 2 a 3. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ychwanegu'r Amodau sydd wedi'u hamlinellu uchod.

73 CAIS RHIF: 20/1213

**Cadw a chwblhau bloc garej (ailgyflwyno cais 20/0091/10)
Tir ger Stryd James, Cwmdâr, Aberdâr**

Darllenodd y Pennaeth Materion Cynllunio a Buddsoddi Sylweddol gynnwys tri datganiad ysgrifenedig gan yr unigolion canlynol:

- Mr S Waldron (Asiant)
- Dr Dublon (Gwrthwynebydd)
- Mr G Butt (Gwrthwynebydd)

Aeth y Pennaeth Materion Cynllunio ati i gyflwyno'r cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth fanwl mewn perthynas â'r cais, penderfynodd Aelodau wrthod y cais sydd wedi'i nodi uchod yn groes i argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn oherwydd nad oedd Aelodau'n teimlo bod y cynnig yn mynd i'r afael â'r rheswm blaenorol dros wrthod y cais. Hynny yw, byddai'r datblygiad yn arwain at amodau gyrru anniogel ac yn gwneud niwed i ddiogelwch y priffyrdd yn yr ardal. Roedden nhw o'r farn y byddai'r datblygiad arfaethedig yn peri problemau diogelwch sylweddol i'r briffordd.

O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

74 CAIS RHIF: 20/0468

**Estyniad yn y cefn i greu fflat hunangynhwysol 1 ystafell wely ar gyfer rheolwr. (Derbyniwyd Disgrifiad, Cynlluniau a ffurflen gais ddiwygiedig ar 19/11/20),
Fflat uwchben gwesty The Ferndale, Stryd y Dyffryn, Glynrhedynog**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

75 CAIS RHIF: 20/1265

**Trosi'r adeilad masnachol presennol yn 7 fflat ac uned fasnachol lai sy'n wynebu'r stryd (Dosbarth Defnydd A2)
Lloyds TSB, 80 Stryd y Fasnach Aberpennar**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

76 CAIS RHIF: 20/0680/10

**Gweld lluniau drôn, awyrluniau a lluniau 'dash cam' mewn perthynas â chais am 6 pod glampio gydag isadeiledd, gwelliannau ac atgyweiriadau i'r ysgubor bresennol (derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ar 17/08/2020) (derbyniwyd cynllun diwygiedig ar 25/08/2020)
FFERM BLAEN NANT-Y-GROES, HEOL BLAEN NANT-Y-GROES, CWM-BACH, ABERDÂR, CF44 0EA**

Yn unol â Chofnod 300 o gofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 17 Medi 2020 cynhaliodd y Pwyllgor ymweliad rhithwir â'r safle i weld lluniau 'dash cam' a lluniau drôn o'r safle i fynd i'r afael â phryderon yr Aelodau ynghylch mynediad i'r safle.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

77 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 07/12/2020 – 18/12/2020.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.40 pm

**Y Cynghorydd S Rees
Cadeirydd.**